




Tyddyn Mon



Mae Tyddyn Mon yn gwmni cyfyngedig ac elusen ac wedi bod yn weithredol am dros 30 mlynedd yn cefnogi oedolion gydag anableddau dysgu yn Ynys Mon, drwy ddarparu cefnogaeth, arweiniad, a chyfleoedd am waith a hyfforddiant, er mwyn eu galluogi i fyw bywydau llawn ac an-nibynol.

Mae Tyddyn Mon yn darparu amrywiaeth o weithgareddau a hyfforddiant yn ystod y dydd sydd wedi'u canoli ar fferm 35 erw. Yn ogystal, mae Tyddyn Mon yn un o brif ddarparwyr llety cefnogol i oedolion ag anableddau dysgu ar Ynys Mon sy'n eu cynorthwyo i fyw bywydau llawn ac an-nibynol yn eu cymunedau lleol.

Canlyniadau'r adroddiad

- Nododd 90% o ddefnyddwyr gwasanaeth welliant yn eu hiechyd meddwl
- Nododd 90% eu bod yn teimlo'n fwy an-nibynol
- Nododd 86% eu bod yn teimlo'n llai unig
- Nododd 85% welliant yn eu hiechyd corfforol
- Mae'r canlyniadau'n gwneud cyfraniad cadarnhaol i Gymru iachach a Chymru mwy Cyfartal o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.



“Yma yn Tyddyn Mon, roeddem yn ddiolchgar i dderbyn cefnogaeth Mantell Gwynedd i gychwyn ar ein taith gwerth cymdeithasol. Mae'r rhaglen wedi'n helpu i ddeall lle rydym yn cael yr effaith fwyaf a sut y gallwn wella yr hyn rydym yn ei wneud. Bydd y data Adenillion Cymdeithasol ar Fuddsoddiad (SROI) yn cyfeirio ein datblygiad strategol wrth symud ymlaen a'n cynorthwyo i uchafu ein heffaith cymdeithasol ac yn y pen draw bydd o fudd i'r bobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau.

Roedd Eleri, Adam a'r tim o gymorth mawr ac yn gefnogol. Ni fyddem wedi cyflawni hyn hebddyn nhw. Bu'r hyfforddiant a'r cyngor arbenigol yn amhrisiadwy ac rydym hefyd wedi gwneud cysylltiadau gwych trwy gydol y rhaglen ac yn y gweithdai. Dwi mor ddiolchgar ein bod wedi bod yn rhan o'r rhaglen.”

Michelle Freeman
Prif Swyddog Gweithredol



svc@mantellgwynedd.com

